# Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

**2015 dccc 2**

**RHAN 2**

GWELLA LLESIANT

*Mesur perfformiad tuag at gyrraedd y nodau*

## 13 Adroddiadau blynyddol gan gyrff cyhoeddus eraill

(1) Mae Atodlen 1 yn gwneud darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob corff cyhoeddus ac eithrio Gweinidogion Cymru gyhoeddi adroddiadau blynyddol ar y cynnydd a wnaed ganddo at gyflawni ei amcanion llesiant.

(2) Wrth baratoi adroddiad o dan Atodlen 1, neu o dan ddarpariaeth a ddiwygir gan yr Atodlen honno, rhaid i gorff cyhoeddus adolygu ei amcanion llesiant.

(3) Os yw corff cyhoeddus yn penderfynu, yn dilyn adolygiad o dan is-adran (2), nad yw un neu ragor o'i amcanion llesiant yn briodol bellach, rhaid iddo ddiwygio'r amcan neu'r amcanion perthnasol a chyhoeddi'r amcan neu'r amcanion diwygiedig cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

(4) Pan fo corff cyhoeddus yn diwygio un neu ragor o'i amcanion o dan is-adran (3), rhaid i'r adroddiad gynnwys eglurhad am y diwygiad a'r rhesymau dros ei wneud.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 13 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 56(2)**

**I2** A. 13 mewn grym ar 1.4.2016 gan O.S. 2016/86, **ergl. 3**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Adran 13.